Thomas Chalmers 1780–1847

Gweinidog yn Eglwys yr Alban a diwygiwr cymdeithasol

Ganwyd Thomas Chalmers ar 17 Mawrth 1780 yn Anstruther, Fife, yn chweched o bedwar ar ddeg o blant i John Chalmers, masnachwr, a'i wraig Elizabeth. Yr oedd ei dad yn Gristion o argyhoeddiad ac o ogwydd Calfinaidd ac yr oedd ei fam, er bod ganddi lond tŷ o blant, yn ymwneud â gwaith elusennol gyda'r tlodion.

Aeth Thomas i ysgol y plwyf yn Anstruther ac yna pan oedd yn un ar ddeg oed fe'i derbyniwyd i Brifysgol St Andrews. Yno, wedi iddo gwblhau cwrs yn y celfyddydau, aeth i'r Divinity Hall ac ym 1799 fe'i trwyddedwyd fel gweinidog dan brawf yn Eglwys yr Alban. Am gyfnod bu'n weinidog yn Kilmany ac yn ddarlithydd gwyddoniaeth yn y Brifysgol ar yr un pryd. Ar y dechrau nid oedd yn cymryd y weinidogaeth o ddifrif ond ym 1809–10, yn dilyn salwch difrifol, fe gafodd dröedigaeth. Pan ddychwelodd i'w waith yn yr eglwys roedd yn llawn sêl dros waith yr Efengyl. Ym 1815 aeth yn weinidog eglwys y plwyf yn Tron, Glasgow. Yn ystod y chwyldro diwydiannol rhoddwyd pwyslais mawr ymhlith Cristnogion ar addysg, gofal cymdeithasol a gwella'r hunan. Ym mhlwyf St John's, Glasgow, aeth ati i aildrefnu gofal y tlodion yn y plwyfi a sefydlu ysgolion ac eglwysi newydd. Roedd hefyd yn awdur eithriadol o gynhyrchiol a daeth i enwogrwydd trwy bregethu yn achlysurol yn Llundain. Roedd rhai o'i bregethau yno yn ysgubol ac o dan ddylanwad yr Ysbryd byddai cynulleidfa yn beichio crio. Ei lyfr cyntaf oedd *An Inquiry into the Extent and Stability of National Resources* (1808) oedd yn ymwneud â masnach dramor. Cyhoeddodd hefyd gyfrol swmpus oedd yn disgrifio'r cynllun a weithredodd yn Glasgow sef *The Christian and Civic Economy of Large Towns* (1819).

Ym 1823 fe'i penodwyd ef i Gadair Athroniaeth Foesol ym Mhrifysgol St Andrews ac ym 1828 daeth yn Athro Diwinyddiaeth Prifysgol Caeredin. Fe'i penodwyd yn Lywydd (*Moderator*) Cymanfa Gyffredinol yr Eglwys yn yr Alban ym 1832. Nid oedd yn hoff o gwbl o'r arfer yn yr eglwys

fod gweinidogion yn cael eu noddi gan bobl gyfoethog. Credai fod hyn yn rhoi gormod o ddylanwad o fewn yr eglwys i'r noddwyr hyn. Gwrthwynebodd yr arfer yn chwyrn ac o ganlyniad bu rhwyg mawr o fewn yr eglwys ym 1843. Y flwyddyn honno gadawodd traean o weinidogion yr Eglwys yn yr Alban – 474 ohonynt – gan sefydlu Eglwys Rydd yr Alban. Ariannwyd yr eglwys hon drwy i bob aelod gyfrannu ceiniog yr wythnos i'r eglwys leol. Oherwydd ei ddoniau trefnu fe warantodd Chalmers fod gan fwy neu lai bob henaduriaeth weinidog o'r eglwys newydd. Rhoddai hyn ddewis arall i bobl yn lle'r Kirk sefydledig. Roedd yr eglwys rydd yn arbennig o gryf yn yr Ucheldir. Penodwyd Chalmers yn Lywydd cyntaf yr eglwys newydd. Roedd y gweinidogion a gerddodd allan o'r eglwys sefydledig yn ddieglwys ac yn ddi-fans, ond o fewn pum mlynedd fe godwyd 700 o eglwysi plwyf newydd, 500 o ysgolion a thros 400 mans. Sefydlwyd hefyd y New College yng Nghaeredin er mwyn hyfforddi gweinidogion. Un o'r datblygiadau arloesol oedd y Sustentation Fund lle roedd cynulleidfaoedd cefnog yn noddi rhai tlotach fel bod pob gweinidog yn cael cyflog teg.

Bu Thomas Chalmers farw ar 31 Mai 1847 yn 67 mlwydd oed. Fe'i claddwyd ym mynwent Grange, Caeredin, ac fe amcangyfrifwyd bod 100,000 o bobl wedi gwylio'r orymdaith angladdol.